

Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data – Ffurflen Cais Gwrthrych Am Wybodaeth

Mae'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) yn rhoi hawl i chi, gwrthrych y data, derbyn copi o'r data/gwybodaeth sydd gennym amdanoch chi neu i awdurdodi rhywun i weithredu ar eich rhan. Llenwch y ffurflen hon os ydych am weld eich data. Bydd angen i chi hefyd ddarparu tystiolaeth o'ch hunaniaeth. Bydd eich cais yn cael ei brosesu o fewn 30 diwrnod calendr ar ôl derbyn ffurflen wedi'i chwblhau'n llawn a phrawf hunaniaeth.

Prawf o hunaniaeth

Rydym angen prawf o'ch hunaniaeth cyn y gallwn ddatgelu data personol. Dylai prawf o'ch hunaniaeth gynnwys copi o ddwy ddogfen fel eich tystysgrif geni, pasbort, trwydded yrru, llythyr swyddogol wedi'i gyfeirio atoch yn eich cyfeiriad e.e. datganiad banc, bil cyfleustodau diweddar neu fil treth gyngor. Dylai'r dogfennau gynnwys eich enw, dyddiad geni a'ch cyfeiriad presennol. Os ydych wedi newid eich enw, rhowch ddogfennau perthnasol sy'n dangos y newid.

Adran 1

Llenwch eich manylion (gwrthrych y data). Os nad chi yw gwrthrych y data a'ch bod yn gwneud cais ar ran rhywun arall, llenwch fanylion gwrthrych y data isod ac nid eich manylion chi.

Teitl:	Mr <input type="checkbox"/>	Mrs <input type="checkbox"/>	Ms <input type="checkbox"/>	Miss <input type="checkbox"/>	Arall: _____
Cyfenw/Enw'r teulu:					
Enw(au) Cyntaf:					
Dyddiad Geni:					
Cyfeiriad:					
Cod post:					
Cyfeiriad blaenorol:					
Cod post:					
Rhif (au) ffon yn ystod y dydd:					

Rwy'n amgáu'r copiâu canlynol fel prawf hunaniaeth:

Tystysgrif geni Trwydded yrru Pasbort Llythyr swyddogol at fy nghyfeiriad

Os nad oes un o'r rhain ar gael, cysylltwch â'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau – 0115 965 9570

Gwybodaeth Bersonol:

Os ydych chi ond eisiau gwybod pa wybodaeth sy'n cael ei chadw mewn cofnodion penodol, nodwch yn y blwch isod. Dywedwch wrthym a ydych yn gwybod ym mha le mae'r wybodaeth yn cael ei chadw, ynghyd ag unrhyw enwau neu ddyddiadau sydd gennych. Os nad ydych chi'n gwybod enw presennol y Tîm, dywedwch wrthym beth rydych chi'n ei wybod. Os nad ydych chi'n gwybod union ddyddiadau, rhowch y flwyddyn/blynyddoedd rydych chi'n meddwl a allai fod yn berthnasol.

Cofnodion cyflogaeth

Os ydych chi nawr neu wedi cael eich cyflogi gan y Gwasanaeth Arian a Phensiynau* (gan gynnwys sefydliadau blaenorol fel: Y Gwasanaeth Cyngori Ariannol, Pension Wise neu'r Gwasanaeth Cyngori ar Bensiynau/TPAS) ac yn chwilio am wybodaeth bersonol mewn perthynas â'ch cyflogaeth, rhowch fanylion eich rhif Staff / Dyddiadau cyflogaeth.

Adran 2

Cwblhewch yr adran hon o'r ffurflen gyda'ch manylion os ydych yn gweithredu ar ran rhywun arall (h.y. gwrthrych y data). Os NAD chi yw gwrthrych y data, ond asiant a benodir ar ei ran, bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth o'ch hunaniaeth yn ogystal â hunaniaeth gwrthrych y data a phrawf o'ch hawl i weithredu ar eu rhan.

Teitl: Mr <input type="checkbox"/> Mrs <input type="checkbox"/> Ms <input type="checkbox"/> Miss <input type="checkbox"/> Arall: _____	
Cyfenw/Enw'r teulu:	
Enw(au) Cyntaf:	
Dyddiad Geni:	
Cyfeiriad	
Cod post:	
Cyfeiriad blaenorol:	
Cod post:	
Rhif (au) ffon yn ystod y dydd:	

Rwy'n amgáu'r copïau canlynol fel prawf hunaniaeth:
Tystysgrif geni <input type="checkbox"/> Trwydded yrru <input type="checkbox"/> Pasbort <input type="checkbox"/> Llythyr swyddogol at fy nghyfeiriad <input type="checkbox"/>
Os nad oes un o'r rhain ar gael, cysylltwch â'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau – 0115 965 9570

Beth yw eich perthynas â gwrthrych y data? (e.e. rhiant, gofalwr, cynrychiolydd cyfreithiol)
Rwy'n amgáu'r copi canlynol fel prawf o awdurdodiad cyfreithiol i weithredu ar ran gwrthrych y data:
Llythyr awdurdod <input type="checkbox"/> Atwrneiaeth arhosol neu barhaus <input type="checkbox"/>
Tystiolaeth o gyfrifoldeb rhieni <input type="checkbox"/> Arall (<i>rhowch fanylion</i>):

Datganiad Pwnc Data:	
Rwy'n ardystio bod y wybodaeth a ddarperir ar y ffurflen hon yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth ac mai fi yw'r person y mae'n ymwneud ag ef. Rwy'n deall ei fod yn ofynnol i'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau gadarnhau prawf hunaniaeth/awdurdod ac efallai y bydd angen casglu rhagor o wybodaeth er mwyn cydymffurfio â'r cais hwn am fynediad at y pwnc.	
Enw:	
Llofnod:	Dyddiad:
NEU	
Person awdurdodedig – Datganiad (os yw'n berthnasol):	
Rwy'n cadarnhau bod gennyf awdurdod cyfreithiol i weithredu ar ran gwrthrych y data. Rwy'n deall ei fod yn ofynnol i'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau gadarnhau prawf hunaniaeth/awdurdod ac efallai y bydd angen casglu rhagor o wybodaeth er mwyn cydymffurfio â'r cais hwn am fynediad at y pwnc.	
Enw:	
Llofnod:	Dyddiad:
Rhybudd: Mae person sy'n cael neu'n ceisio cael data yn anghyfreithlon yn euog o drosedd ac yn agored i erlyniad.	

Dwi'n dymuno:	
Derbyn y wybodaeth mewn fformat electronig <input type="checkbox"/>	
(Efallai y bydd rhai ffeiliau yn rhy fawr i drosglwyddo'n electronig ac efallai y bydd rhaid i ni gyflenwi ar ffurf CD)	
Derbyn y wybodaeth drwy'r post *	<input type="checkbox"/>
Casglu'r wybodaeth mewn person	<input type="checkbox"/>
Gweld copi o'r wybodaeth yn unig	<input type="checkbox"/>
Mynd trwy'r wybodaeth gydag aelod o staff	<input type="checkbox"/>
* Byddwch yn ymwybodol, os ydych yn dymuno i ni bostio'r wybodaeth atoch, byddwn yn cymryd pob gofal i sicrhau ei bod yn cael ei thrin yn gywir. Fodd bynnag, ni ellir ein dal yn atebol os yw'r wybodaeth yn cael ei cholli yn y post neu os caiff ei anfon neu ei agor yn anghywir gan rywun arall yn eich cartref. Gall colli neu anfoniad anghywir achosi embaras neu niwed i chi os yw'r wybodaeth yn 'sensitif'.	

Anfonwch eich ffurflen wedi'i llenwi a phrawf hunaniaeth at:

The Data Protection Officer, Money and Pensions Service, Bedford Borough Hall, 138
Caldwell Street, Bedford, MK42 9AB.

neu anfonwch e-bost at: dpo@maps.org.uk